**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00yp DYDD MERCHER 26ain o CHWEFROR 2014**

**2:00pm, WEDNESDAY 26th of FEBRUARY 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed .18.02.14

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards	Sian Gwenllïan

Selwyn Griffiths	Peredur Jenkins

Liz Saville Roberts	Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards	Jean Forsyth

Eric M. Jones	Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd	Louise Hughes

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

D. Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2il o Ragfyr 2013, fel rhai cywir.

(copi yma – papur gwyn)

**6. PENNAETH ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Diweddariad ar lafar gan y Prif Weithredwr.

**7. ADRODDIAD POLISI TÂL – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr

(copi yma – papur glas)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 02.12.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Lousie Hughes, Sian Gwenllian, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), A Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

1. **CROESO**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Brian Jones, Huw Edwards, , Dewi Owen a Liz Saville Roberts

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**.
   Dim i'w nodi

4. **MATERION BRYS**.
   Dim i'w nodi

5. **COFNODION**
   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2013 fel rhai cywir.

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**6. CYFWELD PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd

**7. CYFWELD PENNAETH ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd

**8. ADRODDIAD O'R GANOLFAN ASESU**

Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni AS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 19.11.13. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r ddau ymgeisydd oedd wedi cyrraedd y safon.

Diolchwyd i Mr Reynolds am ei argymhellion.

**9. PENODI PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I BENODI MARIAN PARRY HUGHES I'R SWYDD PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AM GYFNOD PRAWF O CHWE MIS.**

**10. PENODI PENNAETH ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**PENDERFYNWYD PEIDIO PENODI YR YMGEISYDD I'R SWYDD PENNAETH ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:20pm a daeth i ben am 4:45pm

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad** | **26 Chwefror, 2014** |
| **Teitl** | **Polisi Tâl** |
| **Pwrpas** | **Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Harry Thomas** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

1. **CEFNDIR**

1.1 Ers 2012/13, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar holl gynghorau Cymru i fabwysiadu polisi tâl i'w staff. Mae'r ddarpariaeth statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i hyn fod yn swyddogaeth y Cyngor llawn.

1.2 Gofynnir i'r Pwyllgor hwn gynghori'r Cyngor ar ei bolisi tâl ar gyfer 2014/15 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth.

1.3 Mae'r polisi tâl presennol yn nodi:-

- Bod Cyfarwyddwyr yn derbyn tâl yn union o dan chwartel isaf y farchnad sector cyhoeddus (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector sydd wedi'u harfarnu fod ganddynt swyddi o faint cyfartal yn cael cyflog uwch).

- Mae'r Pennaeth Addysg hefyd yn cael ei dalu ar lefel y chwartel isaf.

- Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth eraill yn cael eu talu ar ganolrif y farchnad sector cyhoeddus ar gyfer swyddi o faint tebyg.

2. **YSTYRIAETH AR GYFER 2014/15**

2.1 Ar 11 Mawrth, bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad sy'n argymell peth ailstrwythuro ar lefel uwch reolwyr. Bydd yn argymell dileu dwy swydd pennaeth gwasanaeth ac ail-glustnodi gwasanaethau'r adrannau sy'n cael eu dileu i uwch swyddogion eraill. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hyn yn cyfrannu at ostyngiad pellach yng nghostau uwch reolwyr a fydd yn gymorth i lenwi'r bwlch ariannol a ragwelir ar gyfer y cyfnod hyd at 2018.

2.2 Nid wyf yn argymell adolygu cyflogau uwch reolwyr i adlewyrchu'r newidiadau uchod ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i ailasesu cyflogau gwirioneddol uwch reolwyr i'r meincnodau priodol yn 2015/16 (penderfyniad a wnaed gan y Cyngor llawn fis Chwefror diwethaf pan fabwysiadwyd polisi tâl eleni). Gellir ystyried unrhyw ail-arfarnu cyflogau i adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd, boed hynny yn arwain at argymhellion i gynyddu cyflogau'r rheini yr effeithir arnynt neu beidio, ar y cyd â'r ailasesu yn 2015/16.

2.3 Yn nhermau cynaladwyedd cyffredinol cyflogau uwch reolwyr, mae sawl ffactor yn effeithio ar allu Cyngor Gwynedd i ddenu a chadw uwch reolwyr. I uwch swyddogion sy'n cael eu talu ar y lefel ganolrif, mae'r polisi tâl arfaethedig yn gyffredinol gynaliadwy ar hyn o bryd.

Ar gyfer yr uwch swyddogion eraill, y Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Addysg, mae talu cyflogau ar y lefel chwartel isaf yn golygu bod y Cyngor yn agored i risgiau. Cyflogau Cyfarwyddwyr Gwynedd yw'r isaf ymhlith yr awdurdodau cymharol. Fodd bynnag, o ystyried yr holl amgylchiadau, yn cynnwys agwedd hanesyddol y Cyngor ynghylch lefelau cyflogau uwch, nid wyf yn argymell unrhyw newidiadau ar gyfer 2014/15.

Yng nghyswllt swydd y Pennaeth Addysg, mae mwy o bryder yn y byrdymor. Pe byddai'r swydd yn dod yn wag, byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried amgylchiadau'r farchnad ar y pryd ac ystyried unrhyw angen i ailraddio'r cyflog. Unwaith eto, ar hyn o bryd, nid wyf yn argymell unrhyw newid ar gyfer datganiad polisi tâl 2014/15.

## 3. CYFLOG ISEL

3.1 Ni ddylai'r polisi tâl ganolbwyntio ar gynaliadwyedd cyflog uwch yn unig - mae angen rhoi sylw i gynaliadwyedd cyflog y staff sy'n derbyn y cyflog isaf.

3.2 Nid yw'n ymddangos fod y Cyngor yn profi problemau sylweddol wrth recriwtio ar y lefel hwn, ac o'r herwydd, gellid dadlau fod y cyflog yn gynaliadwy. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn edrych ar gynaliadwyedd yn fwy eang, mae tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod incwm yn cael ei wasgu a bod hyn yn cael effaith anghymesur ar y rhai sy'n derbyn y cyflog isaf.

3.3 Mae'r ymgyrch i gael cyflog byw yn magu tir ac mae nifer arwyddocaol o Gynghorau un ai wedi ymrwymo i'r cyfeiriad hwn neu'n ystyried symudiad o'r fath. Caiff y cynigion yn yr adroddiad Cabinet diweddar ar gyflog isel eu cynnwys yn Atodiad A. Argymhellaf y dylid ymgorffori'r newidiadau hyn i ddatganiad polisi tâl 2014/15 h.y. codi cyflog staff y Cyngor sydd yn derbyn y cyflog isaf trwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur cyflog y Cyngor.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Yn rhinwedd fy swydd fel Pennaeth Gwasanaeth Taliedig y Cyngor, yr unig newid yr wyf yn dymuno ei argymell i Bolisi Tâl y Cyngor yn 2014/15 yw'r hyn sy'n berthnasol i gyflog isel. O'r herwydd, mae'r datganiad polisi tâl yn Atodiad B yn ymgorffori'r newidiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 uchod ac a fanylir arnynt yn Atodiad A.

4.2 Felly, mae angen i Aelodau'r Pwyllgor hwn benderfynu p'un a ydynt yn fodlon argymell y polisi tâl arfaethedig i'r Cyngor ar 6 Mawrth ai peidio.

**ATODIAD A**

**ADRODDIAD CABINET**
18 Chwefror 2014

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards**<br>**Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc:** | **Polisi Tâl** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Harry Thomas, Prif Weithredwr**<br>**Alwyn E Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol** |

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr Adroddiad**

Gofynnir i'r Aelodau Cabinet:

- Gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor.
- Gwneud argymhelliad i'r Cyngor ymgorffori'r newid hwn yn natganiad polisi tâl y Cyngor ar gyfer 2014/15 a hefyd argymell sut ddylid ariannu'r newid.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Y llynedd, gofynnodd y Cabinet i swyddogion ymchwilio i beth fyddai goblygiadau gweithredu'r "Cyflog Byw" fel rhan o strwythur tâl y Cyngor. Adroddodd y swyddogion y byddai cydymffurfio'n llawn ar unwaith yn arwain at gostau sylweddol (swm o gwmpas £1m y flwyddyn) ac y byddai'n creu problemau gyda'r strwythur tâl yn nhermau arfarnu swyddi.

Yn dilyn hynny, gofynnodd arweinydd y Cyngor i swyddogion ymchwilio i beth fyddai goblygiadau cymryd cam tuag at y "Cyflog Byw".

1.2 Ar hyn o bryd, mae'r Cyflog Byw wedi'i osod ar £7.65 yr awr a'r isafswm cyflog i weithwyr dros 21 mlwydd oed yw £6.31 yr awr. Wrth ddatblygu opsiwn, mae swyddogion wedi ceisio taro cydbwysedd sy'n sicrhau bod y nifer mwyaf posib o staff yn cael budd gan hefyd gyfyngu'r costau i lefel gyraeddadwy ac yn sicrhau nad yw'r Cyngor yn tanseilio'i gynllun arfarnu swyddi.

## 2. **Y CYNNIG**

2.1 Yr argymhelliad yw bod y Cyngor yn dileu'r ddau bwynt isaf ar y raddfa cyflog, sy'n golygu bod yr isafswm cyflog y mae'r Cyngor yn ei dalu yn cynyddu gan 3.9% o £6.44 yr awr i £6.69 yr awr. Yn nhermau graddfeydd tâl, byddai hyn yn golygu'r newidiadau a ganlyn:-

| Graddfa Cyflog | Pwynt Cyflog Cyfredol | Pwynt Cyflog Newydd |
|---|---|---|
| GS1 | 5 | 7 |
| GS2 | 6/7 | 8 |
| GS3 | 8/9 | 9 |

2.2 Byddai'r pwynt dechreuol ar gyfer pob un o'r tair graddfa cyflog yn cynyddu fel a ganlyn:-

| | Cyfredol £ | Arfaethedig £ | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| GS1 | 6.44 | 6.69 | 3.9% |
| GS2 | 6.54 | 6.91 | 5.7% |
| GS3 | 6.91 | 7.11 | 2.9% |

2.3 Mae niferoedd y gweithwyr fyddai'n cael budd o'r cynnig fel a ganlyn:-

| | Parhaol | Achlysurol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| GS1 | 848 | 443 | 1291 |
| GS2 | 66 | 33 | 99 |
| GS3 | 508 | 187 | 695 |
| | 1422 | 663 | 2085 |

Byddai mwyafrif helaeth y staff yr effeithir arnynt yn weithwyr rhan-amser a byddai'r newidiadau i raddfa GS3 ar gyfer staff newydd a staff presennol ar bwynt graddfa 8.

## 3. **COST AC ARIANNU**

3.1 Cyfanswm cost y cynnig yw £235,000 – gallai'r gost yn y pen draw fod ychydig yn is oherwydd mae'n bosib y gallai'r Cyngor ailgodi rhai o'r costau ar drydydd partïon. Bydd y Cyngor yn wynebu'r holl gostau yn 2014/15 gan fod y pecyn wedi'i ddylunio fel bod y staff yn derbyn yr holl fuddion mewn un flwyddyn.

3.2 Yn nhermau ariannu'r cynllun, mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol mewn trafodaethau gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur gyda'r nod o arwyddo memorandwm o ddealltwriaeth. Byddai hyn yn ymdrin â phosibiliadau o arbedion mewn costau staff o amodau a therelau gwasanaeth yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gytundeb i beidio â gweithredu newidiadau i rai amodau a thelerau staff hyd at fis Ebrill 2016. Y syniad y tu ôl i'r memorandwm o ddealltwriaeth yw y byddai'r Cyngor wedi paratoi unrhyw newidiadau mewn da bryd i'w gweithredu ym mis Ebrill 2016.

3.3 Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut bydd trafodaethau manwl yn mynd yn eu blaenau na'r union arbedion fydd ar gael. Felly, mae angen ariannu'r pecyn hwn drwy ddulliau eraill gyda'r memorandwm o ddealltwriaeth ar gael i helpu llenwi'r bwlch ariannol disgwyliedig yn 2016-17.

3.4 Felly, yn nhermau ariannu'r newid o'r flwyddyn nesaf, nid oes llawer o opsiynau. Eisoes, mae'r Cyngor yn gohirio rhai o benderfyniadau anodd y flwyddyn nesaf drwy ddefnyddio balansau i ariannu peth o fwlch ariannol 2014/15. Byddai'n annoeth ychwanegu cost y pecyn hwn i gyllideb sylfaen y Cyngor gan ohirio'r penderfyniad ariannu yr un pryd, gan fod y Cyngor eisoes yn wynebu bwlch ariannol anferth yn 2016/17. Yr unig opsiwn arall yw ychwanegu cost y cynnig hwn i'r Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf. Pe byddai'r aelodau'n derbyn yr opsiwn hwn fel datrysiad, byddai gyfweth ag ychwanegu 0.4% ar gynnydd Treth Gyngor Band 'D' y flwyddyn nesaf.

## 4. <u>CASGLIADAU AC ARGYMHELLION</u>

4.1 Mae'r Aelodau Cabinet eisoes wedi mynegi dyhead i weld "tegwch" yn un o flaenoriaethau thematig y Cyngor yng nghynllluln strategol y Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i'r flaenoriaeth thematig hon mewn nifer o feysydd e.e. newidiadau lles, anghydraddoldeb iechyd a chau'r bwlch mewn cyflawniad addysgol. Mae'r cynnig hwn yn gwbl gyson â'r agenda tegwch.

4.2 Felly, argymhellir yr isod:-

(a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r strwythur tâl i staff ar gyflogau is.

(b) Bod y Cabinet yn argymell cynyddu'r Dreth Gyngor i ariannu'r newidiadau hyn.

**ATODIAD B**

# Datganiad Polisi Tâl

## CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiadau polisi tâl. Rhaid i'r datganiadau hyn gyfleu beth yw polisïau'r Awdurdod tuag at amrediad o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan ddechrau yn 2012/13. Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae'r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Penaethiaid Adran.

### Cyflog

Mabwysiadwyd y polisi sy'n ymwneud â chyflogau Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr Strategol gan Gyngor Gwynedd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac wedyn ym Mehefin 2012.

Mae'n seiliedig ar adroddiad annibynnol gan yr Hay Group ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Cafodd cyflogau Cyfarwyddwyr Strategol eu gosod yn 2009 fymryn yn is na chwartel isaf y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol i swyddi o'r maint hyn (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Cafodd y mwyafrif o gyflogau Penaethiaid Adran eu gosod yn 2009 ar ganolrif y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol i swyddi o'r maint hyn (golyga canolrif bod 50% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Mae swydd Pennaeth yr Adran Addysg wedi ei gosod yn y chwartel isaf ar gyfer swyddi o'r maint hyn.

Bydd ailraddio o dal gwirioneddol i lefelau y meincnodau uchod yn digwydd nesaf yn 2015/16.

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £100,536 - £108,264.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion.

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y cyngor ar y linc ganlynol - [www.gwynedd.gov.uk/buddiannaucyflogaeth](http://www.gwynedd.gov.uk/buddiannaucyflogaeth).

## CYFLOGAU ISAF

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, fel y'i cyflwynwyd ar 1 Ebrill 2008.

Mae'r Cyngor yn diffinio ei gyflog isaf, fel pwynt cyflog 7, ar y raddfa cyflog genedlaethol fel y cytunwyd gan y Cyd Bwyllgor Cenedlaethol.

Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

### Dyletswyddau Etholiadau Lleol

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

### Diswyddo ac Ymddeol

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'u gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor yn y linc ganlynol - www.gwynedd.gov.uk/buddiannaucyflogaeth.

### Ail-leoli

Nid yw'r Cyngor yn eithrio cyn-swyddogion, a dderbyniodd daliadau diswyddo, ar sail gormodedd neu bensiwn, rhag cael eu hail gyflogi.

Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei haeddiant ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### Penodi Prif Swyddog Newydd (Cyflog o £100,000 a throsodd)

Bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r pecyn cyflog ar gyfer unrhyw swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio.

# ATODIAD 1

## TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYWYD GAN GYNGOR GWYNEDD

| **Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.** | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau** | **Wedi eu herio** | **Heb eu Herio** |
| Swyddog Canlyniadau<br><br>Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr<br><br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref | 117.00 | ) 75.00 |
| Dirprwy Swyddog Canlyniadau<br><br>Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif<br><br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 80.00 | ) |
| Isetholiadau<br><br>Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog Canlyniadau i reoli'r cyfrif:<br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 32.00 | |

# <u>Cyflogau Prif Swyddogion</u>

| | |
|---|---:|
| Prif Weithredwr | £100,536 - £108,264 |
| Cyfarwyddw~~y~~r Strategol x 3 | £80,064 - £88,960 |
| Pennaeth Adran Addysg | £67,960 - £75,511 |
| Pennaeth Adran Gofal Cwsmer, Democratiaeth a Chyfreithiol, Economi a Chymuned, Cyllid, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Adnoddau Dynol, Rheoleiddio, Strategol a Gwella, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion, Iechyd a Llesiant | £63,237 - £70,263 |
| Pennaeth Ymgynghoriaeth | £53,418 - £59,353 |